Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (FFORDD OSGOI'R WYDDGRUG, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2014

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw blynyddol ar gefnffordd yr A494 ar Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, mewn grym o'r 12 – 16 Mai 2014 a'r 15 – 19 Medi 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng oriau'r nos o 19:00 o'r gloch i 07:00 o'r gloch y bydd y gwaith yn digwydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a elwir yn Ffordd Osgoi'r Wyddgrug sy'n ymestyn o ochr ddeheuol Cylchfan New Brighton hyd at ochr ogleddol Cylchfan yr Wylfa.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau a beicwyr sy'n teithio tua'r de o Gylchfan New Brighton fydd ar hyd yr A5119 tua'r gorllewin ac yna tua'r de a'r A541 tua' r de-ddwyrain i ailymuno â'r gefnffordd yng Nghylchfan yr Wylfa: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2014).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (MOLD BYPASS, FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 2014

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake annual maintenance works on the A494 trunk road at Mold Bypass, Flintshire.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to be in force from 12 – 16 May 2014 and 15 – 19 September 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to take place during the night-time hours of 19:00 hours to 07:00 hours.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, and cyclists from proceeding in the length of the trunk known as Mold Bypass that extends from the southern side of New Brighton Roundabout to the northern side of Wylfa Roundabout.

The alternative route for southbound vehicles and cyclists from New Brighton Roundabout will be via the westbound then southbound A5119 and south-eastbound A541 to re-join the trunk road at Wylfa Roundabout: vice versa for northbound traffic.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2014).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE